## Diwydrwydd Dyladwy

### Gwiriadau diwydrwydd dyladwy

Gofynnir i ymgeiswyr sector preifat roi manylion am faint y sefydliad, trosiant a pherchenogaeth a chaiff gwiriadau credyd eu cynnal a fydd yn cynnwys:
Chwiliad CreditSafe am y cwmni a chyfarwyddwyr y cwmni
Gwirio cyfrifon archwiliedig
Datganiad o faint y sefydliad yn ôl nifer y cyflogeion (er mwyn pennu a yw'n BBaCh o safbwynt Cymorth Gwladwriaethol)

Y prif ffactorau sy'n pennu a yw busnes yn BBaCh yw:

1. nifer y staff
2. naill ai trosiant neu gyfanswm y fantolen

| Categori'r cwmni | Nifer y staff | Trosiant | neu | Cyfanswm y fantolen |
|---|---|---|---|---|
| Canolig | < 250 | ≤ € 50 m | | ≤ € 43 m |
| Bach | < 50 | ≤ € 10 m | | ≤ € 10 m |
| Micro | < 10 | ≤ € 2 m | | ≤ € 2 m |

Mae'r terfynau uchaf hyn ond yn gymwys i'r ffigurau ar gyfer cwmnïau unigol. Efallai y bydd angen i gwmni sy'n rhan o grŵp mwy gynnwys manylion am nifer y staff/trosiant/data ar y fantolen ar gyfer y grŵp hwnnw hefyd.

Cynhelir asesiad risg a fydd yn cynnwys:

- Gwariant rhagamcanol
- Cyfrifon rheoli
- Asesiad risg (gyda sgôr ddilynol) yn seiliedig ar faint o arian sydd ei angen, yr arloesedd (fel y'i asesir gan y Panel Asesu) ac unrhyw ffactorau ychwanegol (h.y. pwy arall sy'n ariannu)
- Y proffil talu